


Hydref 2019

Rhifyn 280



“Dal y sêr mewn gwenithfaen ddu
Yn ddrych o'r gwreichion byw a fu.” t. 10



Mae Canolfan Morlan angen

Gweinyddydd Rhan Amser.

Oriau – 17.5 awr yr wythnos

**Tymor – Parhaol gyda'r chwe mis cyntaf yn
gyfnod prawf.**

**Cyflog – £18,139 – £20,183 pro rata
pwynt 13-17 ar raddfa EBC**

Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais,
cysylltwch â'r swyddfa: 02920 627465.

e-bost: hedd@ebcpw.cymru

Dyddiad cau: 4 o'r gloch,

Dydd Gwener, 25ain Hydref 2019.

Bydd y swyddog yn cael ei gyflogi gan Eglwys
Bresbyteraidd Cymru.

GAIR Y BUGAIL



Haf Bach Mihangel! Dwi'n hoffi'r enw yna a hynny am nifer o resymau. O ran tarddiad i ddechrau. Gŵyl San Mihangel sy'n digwydd ar y 29ain o Fedi. Pwy oedd Mihangel? Dyma mae Wicipedia yn ei ddewud:

‘Cyda Gabriel, Raphael, Uriel ac eraill, mae'n sefyll yn dragwyddol o flaen Duw ac yn barod i'w hanfon fel ei negesyddion i'r ddynolryw. Gyda Gabriel mae'n gwarchod drysau eglwysi rhag y Diafol.’

Dyna ddarlun!

Ond hefyd o ran y tywydd, rhyw fath o estyniad i fisoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst a ninnau am ddal gafael yn y cyfan cyn oerni'r gaeaf.

Rhyw bedair wythnos yn ôl mi roeddau ni fel teulu ar wyliau ym Mwdapest ac yn mwynhau'r ddinas honno yng ngwres llethol yr haf, ond atgof yw hynny bellach. Mae'r dail yn dechrau disgyn, y boreau yn oeri ac ymhen y mis fe fydd y clochau yn troi am yn ôl a'r cyfan yn arwyddo dechrau tymor y gaeaf. Y cymeriad Hannah Hauxwell, y wraig ryfeddol honno oedd yn ffermio yn unigrwydd y 'Dales' ddywedodd unwaith:

‘Rwyf yn byw yn ystod yr haf ac yn goroesi yn y gaeaf’.

Darluniau cyfoethog byd natur yn gweithredu fel rhyw fath o fetaffor yng nghyd destun ein bywydau unigol a lluosog. Y rhwyddineb yna sy'n gallu perthyn i fywyd gyda'i fendithion a'i destunau diolch amrywiol, ond hefyd y gaeafau hynny sy'n dod i ran bob un ohonom pryd y

profir ein ffydd a phryd y gelwir arnom i adnabod ffynonellau cynhaliaeth a chysur.

Fe fu'r misoedd diwethaf yn llawn straeon am unigolion a chymunedau yn profi dioddefaint yn ei amrywiol ffyrdd a chyda hynny, ein dealltwriaeth o gyfiawnder a'r modd y mae rhywun yn ymateb i'r cyfan mewn trugaredd a gwasanaeth.

Ymhlith deunydd Diolchgarwch Cymorth Cristnogol mae stori Kasthuri, merch o'r India, un o dras Dalit. Yn y diwylliant rhyfedd hwnnw, diwylliant tras, y Dalit yw'r isaf o'r cyfan ac fe brofodd Kasthuri ragfarn a chreulondeb ofnadwy. Mae'n stori sy'n sôn am drugaredd yn fwy na dim sef trugaredd gwraig o gast arall roddodd gartref iddi a hefyd gwaith Cymorth Cristnogol yn y rhan yna o'r byd yn ei chynorthwyo i amaethu a sicrhau pris teg wrth werthu ei chynnyrch.

Mae mis Hydref yn fis y 'Cyfarfodydd Diolch' a da felly! Cyfle i chi a fi agor ein meddyliau o'r newydd i ogoniant creadigaeth, a deall ystyr rhyfeddod, cyfrif ein bendithion ond hefyd i adnabod cyfiawnder yn ei amrywiol ffyrdd a gweithredu'r cyfiawnder yna yn wyneb unrhyw angen a dioddefiant. Er mor rhyfedd y mae'n swnio, boed i ni fod yn 'bobl Haf Bach Mihangel' ac yn gyfryngau cariad yn wyneb casineb, llawenydd yn wyneb tristwch, a bywyd yn wyneb marwolaeth. Pobl trugaredd Duw. A phobl yn byw eu bywydau yng ngoleuni geiriau Iesu:

'Credwch chi fi, pan wnaethoch chi helpu'r person lleiaf pwysig sy'n perthyn i mi, gwnaethoch chi fy helpu i'.

Math Pen 5 ad 40 (beibl.net)

Cofiwch am y Cinio Bara Chaws misol!

Eifion

NEWYDDION

Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion at ...

Iestyn Phillips a Brenda Griffiths sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar, gan ddymuno adferiad llwyr iddynt.

Hefyd anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd mewn cartrefi preswyl, neu sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi.

Cydymdeimlwn yn ddwys ...

â Jonathan a Siân Eirug ar farwolaeth tad Jonathan, sef Alun Eirug Davies a chydag Anest a Llŷr sydd wedi colli eu tad-cu. Cydymdeimlwn hefyd ag Eifion, brawd Jonathan.

â Mary Evans sydd wedi colli ei merch-yng-nghyfraith, Anna Evans. Cydymdeimlwn â'i phriod Huw a'r plant, Lowri a Llew. Cofiwn hefyd am eu hewythr, Ossie Rees.

â Eirlys Parry sydd wedi colli ei nith, Elain yn Ninas Mawddwy a chyfnither i Rhiannon.

â Dylan ac Alaw Hughes ar farwolaeth chwaer Alaw, sef Eiry yn Stag's Head, Llangeitho. Bu Eiry yn athrawes annwyl iawn i ddisgyblion y Meithrin yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.

â Mari Llwyd a'i theulu ar golli eu mab annwyl Meilir Llwyd yn ddifrifol o ifanc a disymwth.

Wrth i Perthyn fynd i'r Wasg daeth y newyddion trist am golli Dilys Stephens. Anfonwn ein cofion anwylaf at ei theulu. Bydd cyfle yn y rhifyn nesaf i dalu teyrnged iddi.

Llongyfarchiadau i ...

Mona Bowen ar ddathlu ei phen blwydd yn 90 oed ar 19 Awst.

Iwan Bryn James ar ennill y gadair yn Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen ac i bawb enillodd wobrau yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst eleni.

Llongyfarchiadau i Owain Gruffydd ar ennill ysgoloriaeth Cwmni Drama Abertawe a Gwobr Syr Ian KcKellen, Canolfan Celfyddydau Aberystwyth. Dymuniadau gorau i ti ym Mhrifysgol Northampton.

Geni – Llongyfarchiadau i ...

Llŷr ac Angharad Evans ar enedigaeth Gwenno Llŷr.

Peris Edwards ar enedigaeth ei gor-wyres, Mabli Angharad Fitter – merch i Rhydian a Jamie ym Mhontypridd.

i Vivian a Sue Rees-Butterworth ar enedigaeth ei hwyres Elouise Alaw Rhys, merch i Dyfan a Rachel.

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i'r bobl ifanc i gyd sydd yn parhau â'u hastudiaethau neu yn dechrau swydd neu yrfa newydd. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.



Derbyniwyd £2150 mewn rhoddion at waith Morlan er cof am yr Athro Noel Lloyd. Mae'r teulu a'r eglwys yn gwerthfawrogi'n fawr yr arwyddion hyn o barch at Noel, ei fywyd a'i wasanaeth.

Fe gofiwch i ni gynnal cinio Bara a Chaws yn festri'r Morfa ddechrau Medi. Diolch i bawb gymerodd ran, mewn unrhyw fodd, i wneud yr achlysur yn llwyddiant. Casglwyd £289 tuag at Gymorth Cristnogol



Newyddion Ebeneser



Mae'n braf cael bod yn ôl yn cyd-addoli ar brynhawn Sul wedi seibiant dros yr Haf.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac at Brenda Griffiths sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ystod yr Haf.

Cynhelir ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar brynhawn Sul, 20 Hydref am 2.15 o'r gloch o dan arweiniad ein Gweinidog.

Golygyddion y mis hwn yw Sharon Owen ac Arwel Jones.
Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Tachwedd o PERTHYN at
Sharon Owen sharonowen527@btinternet.com
Arwel Jones rocetarwel@yahoo.com
erbyn dydd Gwener, 18 Hydref os gwelwch yn dda.

Gŵyl Flodau

Cynhaliwyd Gŵyl Flodau yn Eglwys Dewi Sant ddiwedd Awst. Diolch i Mary Ceinor Jones am fod yn gyfrifol am arddangosfa Capel y Morfa ar thema'r adnod a'r emyn *Yr Arglwydd yw fy Mugail*. Emyn Clwb Hwyl Hwyr oedd 'Dyma gariad fel y moroedd' ac fe grewyd addurniadau ganddynt yn gefndir i'r arddangosfa yn y llun.

Dymuna Elen ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Codwyd £1000 i HaHav, £525 i'r Ambiwylans Awyr a £193 i'r Banc Bwyd.



Yr Ysgol Sul – Bwlch Nant yr Arian

Dydd Sul Medi 15 i nodi dechrau tymor newydd yr Ysgol Sul treuliwyd bore ardderchog yn y ganolfan natur yn Nant yr Arian a chael mwynhau cwmni plant Ysgol Sul Seion.



Mynd amdani yng Nghaerdydd

Mae elusen DASH Ceredigion yn cynnig seibiant gwerthfawr a gweithgareddau hamdden hyfryd i lawer o bobl ifanc a'u teuluoedd yng Ngheredigion. Am dros 40 mlynedd mae rhieni a gofalwyr wedi cael amser i orffwys ac ail danio'r batris fel petai, ac mae plant a phobl ifanc anabl yn cael cyfle i ddatblygu eu datblygiad personol, cymdeithasol a chreadigol mewn awyrgylch groesawgar a hwyliog.

Mae'r elusen yn ddibynol iawn ar gyfraniadau a rhoddion a bydd un rhedwr o gapel y Morfa yn troi ei olygon at hanner marathon Caerdydd ym mis Hydref ac yn codi arian ar gyfer DASH yr un pryd.

Bydd Deian Creunant yn rhedeg y ras 13 milltir ac mae wedi dewis DASH fel elsuen i godi nawdd ar ei chyfer:

"Dros y blynyddoedd rwyf wedi sylweddoli pwysigrwydd y gwaith y mae DASH yn ei wneud yng Ngheredigion a pha mor werthfawr yw'r gwasanaeth y mae'n ei gynnig i drigolion y sir. Mae'r cynlluniau y mae DASH yn eu rhedeg nid yn unig yn rhoi seibiant angenrheidiol i deuluoedd ond mae hefyd yn helpu'r bobl ifanc a gefnogir i dyfu fel unigolion gan ennyn hyder, hunan-barch a sgiliau byw'n annibynnol ynddynt."

Ychwanegodd Jo Kennaugh, rheolwr DASH,

"Rydym yn ffodus yn DASH i dderbyn cefnogaeth gan Gyngor Ceredigion a chyllidwyr eraill fel y Loteri Genedlaethol a Phlant Mewn Angen ond rydym hefyd yn ddiolchgar iawn am gefnogwyr lleol sy'n ein helpu i gyflawni ein nodau o ddarparu gwasanaethau mawr eu hangen i deuluoedd Ceredigion."



Caiff hanner marathon Caerdydd ei chynnal ar ddydd Sul, 6 Hydref a gallwch gefnogi Deian drwy ymweld â <https://localgiving.org/fundraising/hanner-marathon-caerdydd-cardiff-half-marathon/>

Dal y sêr mewn gwenithfaen ddu Yn ddrych o'r gwreichion byw a fu.

Mae'n ddiwedd haf a'r lliw haul yn dechrau pylu. Ond dwi'n dal i edrych yn ôl ar bythefnos olaf Awst drwy sbectol heulog braf.

Y pythefnos hwnnw yn Llydaw oedd y gwyliau perffaith. Cawsom dywydd perffaith, cwmni perffaith, lleoliad perffaith a hynny am bythefnos bendigedig o hir.

Taflïad dwy garreg o'r garafân roedd yna draeth. Traeth diddiwedd o wyn a'i dywod yn esmwyth ac yn ddwfn. Treulïwyd orïau yno'n codi cestyll Canute, yn hedfan barcud, yn cloddio a chladdu ein gilydd, yn chwarae pêl, darllen a chysgu a llosgi.

Ond roedd rhywbeth arall yn arbennig iawn am y traeth hwn. Roedd o'n draeth euraidd. Dwi ddim yn bod yn ystrydebol. Yn gymysg â gronynnau gwynion y traeth hwn roedd yna wreichion aur.

Roedd rhywbeth yn chwedlonol am yr aur hwn. Gellid dychmygu bod ffwrnais hud ar wely'r môr yn llosgi heb ei difa ac yn creu gwreichion aur. I ychwanegu at eu rhinweddau chwedlonol doedd dim modd eu dal, dim ar gamera, na rhwng bys a bawd. Dim ond ar y traeth ac yn y cof mae'r gwreichion hyn yn tanio.

I ganol hyn daeth y newyddion fel pwcaded o ddŵr oer am golli Anna yn y modd mwyaf dychrynlyd o drasig.

Roedden ni mewn bwyty yn mwynhau *crepe* a'r hwyl o geisio archebu mewn Ffrangeg carbwl. A dyma Twitter yn poeri'r newyddion aton ni yn y modd mwyaf ansensitif.

Am oriau wedyn fues i'n crwydro'r strydoedd yn methu'n lân â chymodi rhwng yr hyn o'n i wedi glywed a'r gwyliau perffaith yr oeddwn i'n ei fwynhau. Fe fuon ni'n gwyllo'r plant ar garousel – tra roedd teulu bach yn Aber yn chwalfa. Fuon ni'n foch glwth yn mwynhau'r cacennau mwyaf pechadurus o flasus o ryw *patisserie* drud. Fuon ni mewn eglwys gadeiriol a methu ymlonyddu. Sut gallen ni a theulu yn Aber wedi dioddef y fath brofedigaeth?

Cydnabod i mi oedd Anna. Yn achlysurol yn unig y byddwn i'n dod ar ei thraws, ond fe fyddwn i bob amser yn falch o'i gweld ac yn ddi-ffael yn teimlo'n well o fod wedi ei gweld hi.

Wn i ddim sut yn union i roi'r profiad o'i cholli ar bapur. Fe fyddai'n rhyfygus honni i mi gael profedigaeth ond fe gefais ysgytwad.

Es i yn ôl i'r traeth chwedlonol heb gymodi dim ar brofiadau'r dydd.

Mae'n debyg bod y môr wedi erydu'r gwreichion aur yma o'r wenithfaen oedd mor amlwg ar hyd yr arfordir. Miloedd o flynyddoedd o lanw a thrai wedi gadael biliynau diderfyn o ronynnau tywod ar y traeth, ac yn eu plith y gwreichion euraidd llachar sy'n gwenu yn yr haul.

Yn yr un modd, o blith y biliynau diderfyn ohonon ni fodau dynol sy'n cael eu sgubo gan lanw amser fe fydd rhai gwreichion euraidd fel Anna. Unigolion y byddwn ni bob amser yn falch o'u gweld ac yn teimlo'n well o fod wedi eu gweld. Allwn ni i gyd ond gobeithio y gallwn ni gynnig y fendith honno i un person arall. Oherwydd waeth beth ddywed neb, roedd yna aur ar y traeth yn Guilvinec.

(Ymddangosodd gyntaf yn y *Goleuad*.) RAJ

Dwy ddelwedd gyferbyniol?

Cymerwch blât a'i daflu ar lawr.
lawn.

Ydy o'n malu'n ddarnau mân?
Ydi.

Ymddiheurwch.
'Mae'n ddrwg gen i.'

Ydi o'n mynd yn ôl at ei gilydd fel roedd o o'r blaen?
Nac ydi.

Nawr ydych chi'n deall?





“Hyd yn oed â’ch byd yn ddarnau, gallwch ddod o hyd i ffordd i fod yn ddarn o gelfyddyd”

Y Traethodydd

Mae'r **Traethodydd** yn un o gyfnodolion amlycaf Cymru, wedi ei sefydlu yn 1845. Mae'n cynnig llwyfan i lenorion, beirniaid a sylwebyddion, ac mae'n fforwm pwysig ar gyfer trafodaeth ddiwylliannol. Mae'n llawn o erthyglau difyr a diddorol. Ceir pedwar rhifyn mewn blwyddyn a gellir nawr danysgrifio trwy'r we ar www.ytraethodydd.cymru

Neu gallwch ei brynu yn eich siop leol. Golygir y cylchgrawn gan yr Athro Densil Morgan, ac fe'n hanogir i'w brynu a'i ddarllen.



Pwyllgor Cenhadol Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

Dydd Sadwrn, 5 Hydref am 2 o'r gloch
yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron

Cyfarfod cenhadol blynyddol:

**Bydd Clyde Briggs yn siarad am
*Ddrysau Agored***

Te yn dilyn y cyfarfod

Croeso cynnes i bawb

Eisteddfod Genedlaethol Cererdigion 2020

Cinio Dydd Sul

20 Hydref 2019

Yn Llety Parc

12:30 ar gyfer 1:00pm

Tocynnau: £20

Siaradwr Gwadd: Huw Thomas, Caerdydd

Am ragor o fanylion cysylltwch â

Mr Hefin Jones 01970 615177

Cyng. Gareth Davies 07855 906 326

Yr elw at Apêl Lleol Aberystwyth a'r Cylch.

GWEDDI

Gweddi am Hinsawdd

Gofalwn am ein hinsawdd

Am y glaw

Mae glaw yn rhoi tai dan ddŵr ond yn gwneud i blanhigion dyfu

Gofalwn am ein hinsawdd

Am y gwynt

Gall y gwynt lorio coed ond fe all yrru tyrbin

Gofalwn am ein hinsawdd

Am yr haul

Gall gwres yr haul grasu'r tir ond fe all gynhesu panel solar

Gofalwn am ein hinsawdd

Am y tywydd

Am y bobl sy'n byw gyda stormydd a llifogydd a sychdwr

Gofalwn am ein hinsawdd.

Amen.

Gweddi oddi ar wefan Cymorth Cristnogol.



Cyfarfodydd Diolchgarwch

Bore Sul 6 Hydref: Llanllanast Diolchgarwch yn yr Ysgol Sul.

Bore Sul 20 Hydref: Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul.
Thema: *Tir a Môr*. Casgliad at Water Aid

Bore Mawrth 22 Hydref am 10.30 o'r gloch yn y Morlan –
Cwrdd Gweddi a Choffi – Diolchgarwch

Nos Iau 24 Hydref am 7 o'r gloch Gwasanaeth Diolchgarwch
yn Ffestri'r Morfa

Nos Lun 28 Hydref: Swper Diolchgarwch yng nghwmni'r
Parch Carwyn Arthur.

Gweithgareddau Cymorth Cristnogol

Dydd Sadwrn, 5 Hydref - casgliad ar y stryd i Gymorth
Cristnogol

Dydd Llun, 7 Hydref - Cinio Bara a Chaws, yn Bethel,
rhwng 12.00pm a 1.30pm

Dydd Mercher, 16 Hydref - Cyfarfod Blynyddol
yn St Paul's am 5.30pm

DYDDIADUR

- Gwasanaethau'r Sul** 10.00 a 6.00 2.15 yn Ebeneser
- 6 Eifion Roberts
- 13 John Owen (bore a phrynhawn)
Huw Roderick (nos)
- 20 Eifion Roberts (oedfa ddiolchgarwch yr Ysgol Sul yn y bore)
- 27 Eric Jones (**oedfa nos am 5.00**)



COFIWCH:

**Oedfa'r nos yn
symud yn ôl i
5:00pm – ddydd
Sul 27 Hydref.**

Ysgolion Sul - Plant ac Ieuenctid: bore am 10.00am

Clwb Cŵl – bob prynhawn Llun, 3.45-5.00pm

Cylch Gweddi a Choffi – bore Mawrth am 10.30am

Astudiaeth Feiblaidd – nos Iau am 7.15pm

Ffydd a Phaned – prynhawn Gwener am 2.00pm

Y Gymdeithas

Nos Lun 14 Hydref: Newyddion Ddoe a Heddiw - Sara Gibson

Nos Lun 28 Hydref: Swper Diolchgarwch yng nghwmni'r Parch Carwyn Arthur.

SWYDDOGAETHAU HYDREF 2019

Blaenor y Mis: Wyn Hughes

Porthorion John Roberts, Beti Roberts, Jean Lloyd Davies

Blodau'r Cysegr – Y Morfa

- 6 Sharon Owen ac Arwel Jones
- 13 Eirwen Lewis a Mary Bott
- 20 Mary James a Llinos Jones
- 27 Bethan Bryn

Blodau Ebeneser

- 6 Denise Morgan
- 13 Sylvia Lewis
- 20 Susan Hughes
- 27 Ann Skitt

Cynorthwywyr Llestri Cymun

- 6 (Nos) Catrin Griffiths, Eirwen Lewis, Awen McDougall, Valerie Jones

Cynorthwywyr Ariannol

- 6 Brian Thomas a Dafydd Morgan Evans
- 13 Ellen Llwyd-Evans a Hefin Jones
- 20 Megan Hughes a Catrin Griffiths
- 27 D. Meirion Jones a Beti Roberts

Tregerddan

- 27 Dan ofal Arwel Jones a Menai Lloyd Williams

Cofiwch am:

Joio@Morfa

(diwrnod Hyfforddiant mewn swydd)

Dydd Gwener, 25 Hydref (8.30 tan 4 o'r gloch) yn Ffestri'r Morfa

Bydd manylion cofrestru yn nes at y dyddiad

Beth nesaf?

Ydych chi'n berson ifanc sydd am wybod rhagor cyn penderfynu dod yn aelod o'r eglwys ai peidio?

Bydd Eifion ac Elen yn cynnal cyfarfodydd fydd yn rhoi cyfle i chi holi cwestiynau a dysgu rhagor cyn penderfynu. Holwch nhw am ragor o fanylion.